


Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Bedd Morris/Aberfforest

Teithiau Hanner Dydd a Mwy




**GRADDFA:** 0 400 800 m

**PELLTER/HYD:** 6.1 milltir (9.8 km) 3 awr

**CLUDIANT CYHOEDDUS:** Bws gwasanaeth Dinas/Trefdraeth 412, \*Poppit Rocket 405 (\*tymhorol, galw a teithio)

**CYMERIAD:** Cymoedd coediog, clogwyn dros y môr, caeau a da byw

**CHWILIWCH AM:** Carreg Ffin Bedd Morris • golygfeydd gwych o'r arfordir a'r mynyddoedd



## CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Llwybr yr Arfordir
- Cadwch at y Llwybr ac i ffwrdd o mylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiau

## ALLWEDD

- ● ● ● Llwybr Cylch
- — — — Llwybr Arfordir Sir Benfro  
Llwybr Cenedlaethol
- - - - - Llwybrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toileadau Cyhoeddus
- Bus Safle Bws

# Bedd Morris/Aberfforest

## Teithiau Hanner Dydd a Mwy

**Hyd :** 3 awr

**Pellter :** 6.1 milltir (9.8 km)

**Cludiant cyhoeddus:** Bws gwasanaeth Dinas/Trefdraeth 412, \*Poppit Rocket 405 (\*ymhorol, galw a teithio).

**Cyfeirnod map:** SN040385

Mynyddoedd y Preseli yw'r uchaf yn Sir Benfro, ac maen nhw'n grib cadarn o siâl Ordoficaidd a charreg laid sydd wedi'i gywasgu i ffurfio llechi. Mewn mannau mae yna ryolit a dolerit, y 'garreg las' enwog sy'n ffurfio cylch mewnol Côr y Cewri (Stonehenge). Dolerit smotiog yw'r 'garreg las' - mae'n unigryw i ardal Carn Meini.

Mae'r llwybr hwn yn eich tywys i uchder o bron i 300 metr (980tr) ar Barc Mawr, ble mae'r clogwyni tolciog yn eich atgoffa o dyrrau gwenithfaen Dartmoor. Mae'n ymddangos bod y cornel gogleddol hwn ar gadwyn y Preseli yn codi'n syth allan o'r môr ac mae'r llwybr yn eich tywys yn gyflym rhwng y rhostir agored i'r arfordir. Mae'r rhan fwyaf o'r rhostir yn dir comin sy'n eiddo i Farwniaeth Cemais ond wedi'i reoli gan bobl gyffredin sy'n pori gwartheg, defaid a merlod arno.

Mae llawer o ucheldir y Preseli yn gorstir ac mae'r pridd yn asidig, sy'n golygu bod planhigion fel ffynidfwsgl, llysiâu'r afu a thegeirianau yn ffynnu yma. Yw hwyr yn yr Haf, mae pinc cynnes y grug yn ychwanegu cyfoeth o liw at y dirwedd.

Mae'r llwybr yn mynd heibio'n agos i un o nodau tir enwocaf yr ardal, y garreg sefyll a elwir yn Bedd Morris - un o 70 sydd yn y sir.

Dyma garreg drawiadol sydd tua dau fetr (chwe throedfedd) o uchder a chredir ei bod yn dyddio o rhwng 2,000-1,500 CC. O bosib, roedd yn farciwr i ddangos cyffordd rhwng dau dracffordd hynafol iawn ar draws Mynyddoedd y Preseli.

Yn llawer mwy diweddar, mae'r garreg wedi dod yn ganolbwynt i straeon lleol. Yn ôl un stori, mae'n marcio bedd lleidr pen ffordd o'r enw Morris, a fu unwaith yn ysglyfaethu ar y rheiny a deithiau ar draws y mynyddoedd.

Yn agos i'r llwybr, mae Cerrig y Gof, cerrig sefyll sy'n olion o siambr gladdu Neolithig rhwng 4,500 a 5,500 oed. Saif y cerrig yn agos at yr A487 ar dir preifat ond mae'r perchennog yn caniatáu mynediad - cofiwch gau'r giât.

